Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

Dydd Mawrth 26 Chwefror 2008

Mae safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn gwella, ond mae'r gyfradd wella'n arafu

Mae safonau yn y rhan fwyaf o feysydd addysg a hyfforddiant yng Nghymru wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond mae'r gyfradd wella'n arafu mewn llawer o sectorau, ac mae anghysonderau yno o hyd, yn ôl Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2006-07.

Wrth siarad yn lansiad yr Adroddiad Blynyddol heddiw (26 Chwefror) yn Ysgol Uwchradd Gatholig Rufeinig Sant Joseff ym Mharc Tredegar, Casnewydd, dywedodd pennaeth Estyn a benodwyd yn ddiweddar, Prif Arolygydd EM Dr Bill Maxwell, bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod darparwyr ac asiantaethau eraill yn gweithio mewn partneriaeth ac yn rhannu darpariaeth er mwyn cynorthwyo dysgwyr a chodi safonau ar draws holl ardaloedd Cymru.

'Mae'r darlun ar gyfer 2006-07 yn un cadarnhaol mewn llawer o ffyrdd, ond er bod safonau wedi gwella mewn sawl sector addysg, mae'n rhaid parhau i drawsnewid y modd y mae addysg a hyfforddiant yn cael eu darparu os yw dysgwyr yng Nghymru i fod cystal â chyflawniadau'r gwledydd sy'n perfformio orau yn y DU a thramor,' dywedodd Dr. Maxwell.

'Mae negeseuon cadarnhaol yn yr adroddiad am berfformiad ysgolion. Rydym wedi gweld nifer gynyddol o ysgolion yn dangos rhagoriaeth (Gradd 1) ar draws pob un o'r saith maes gwaith sy'n cael eu harolygu gan Estyn, ac mae'n amlwg bod gwell

arweinyddiaeth a gwelliannau yn yr addysgu wedi cyfrannu at hyn,' dywedodd Dr. Maxwell.

'At ei gilydd, mae'r addysgu yng Nghymru yn gwella yn yr ysgolion cynradd, yr ysgolion uwchradd a'r ysgolion arbennig, ac mae partneriaid yn gwella o ran cydweithio ar draws addysg, gofal cymdeithasol, iechyd a chyfiawnder ieuenctid, ond mae angen gwneud mwy ar y lefelau uchaf i wneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael.'

Mae negeseuon cadarnhaol yn yr adroddiad i addysg bellach hefyd, gyda mwy o waith rhagorol yn cael ei gyflawni, a chyda cholegau addysg bellach yn rhagori ar dargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

'Mae gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a cholegau yn dechrau dwyn ffrwyth hefyd gan ei fod yn gwella amrywiaeth ac addasrwydd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion 14-16 oed. Fodd bynnag, nid oes gwelliannau tebyg wedi'u gwneud yn y ddarpariaeth i fyfyrwyr 16 oed a hŷn, yn enwedig i'r rheiny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i fynd yn ôl i ddysgu. Er bod mwy o gyrsiau ar gyfer y rhai 14-19 oed erbyn hyn, nid oes digon o ddewisiadau ar gael o hyd,' dywedodd Dr. Maxwell.

Mae dysgu yn y gwaith wedi dangos gwelliant nodedig iawn. Un o'r rhesymau dros y gwelliant hwn yw arweinyddiaeth a rheolaeth well o lawer, sydd erbyn hyn yn dda neu'n well mewn bron i ddwy ran o dair o'r darparwyr a arolygwyd. Am y tro cyntaf, roedd safonau anfoddhaol yn gyffredinol (Gradd 4) gan lai na chwarter y darparwyr a arolygwyd gan Estyn eleni, o gymharu â bron i hanner y llynedd.

'Er gwaethaf cynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n dangos rhagoriaeth mewn agweddau ar eu gwaith, mae'r bwlch rhwng y gorau a'r gwaethaf yn mynd yn fwy. Mae ysgolion eraill yn agos iawn at fynd i'r categori ffurfiol 'achosi pryder', ac yn gyffredinol, mae rhyw 10% o ysgolion yn amlwg heb fod yn gwneud yn ddigon da. Nodwyd 16 o ysgolion gennym hefyd fel rhai yr oedd angen rhoi mesurau arbennig ar waith ynddynt neu yr oedd angen eu gwella'n sylweddol, sef bron i ddwywaith y nifer a nodwyd y llynedd. Ni wnaeth rhai awdurdodau lleol ganolbwyntio'u cymorth ar ysgolion sy'n tangyflawni yn ddigon cynnar i'w hatal rhag mynd yn destun pryder.

Mae ansawdd y gwasanaethau addysg sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol a arolygwyd gan Estyn yn parhau i fod yn amrywiol iawn. Barnwyd bod y rhagolygon ar gyfer gwella'n ansicr mewn dwy ran o dair o'r gwasanaethau addysg awdurdod lleol a arolygwyd,' dywedodd,' said Dr. Maxwell.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

Bydd copi llawn o Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd, a'r fersiwn gryno, Penawdau Estyn, ar gael am 11 y bore, dydd Mawrth, 26 Chwefror, ar wefan Estyn:

http://www.estyn.gov.uk/annual_report.asp (Saesneg)

http://www.estyn.gov.uk/cy_annual_report.asp (Cymraeg)

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn darparu gwasanaeth arolygu a chynghori o ansawdd uchel.
- Mae Estyn yn arolygu ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir neu a ariennir gan awdurdodau addysg lleol (AALlau), ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol, AALlau, addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, cwmnïau gyrfaoedd, dysgu troseddwyr ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag:
Amanda Arter
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
029 2044 6464